

Sul yr Urdd

Darllen: Luc 15:20

Un o'r pethau oedden ni'n edrych ymlaen ato pan oedden ni'n blant oedd derbyn bathodyn yr Urdd – y triongl coch, gwyn a gwyrdd. A byddai'r athro Cymraeg yn ein siarsio i gofio'r arwyddair: bod yn ffyddlon i Gymru, i gyd-ddyn ac i Grist. A phan fydden ni o dro i dro yn anghofio mai Cymru oedden ni, ac weithiau'n tyngu a rhegi, byddai'n ein hatgoffa o'r arwyddair hwnnw.

Pa mor bwysig ydi ffyddlondeb? Pan oeddwn i'n blentyn bach roedd gen i gi bach – ast fach, i fod yn fanwl gywir. Byddai'r ddau ohonom yn mynd am dro ar hyd y moelydd o amgylch fy nghartref. Mi fyddai hi'n crwydro ymhell oddi wrthyf, ond doeddwn i'n poeni fawr ddim gan fy mod i'n gwybod y byddai'n siŵr o ddychwelyd. Droeon, byddai'n dychwelyd a dechrau cyfarth a'm hannog i'w dilyn. Un tro, roedd wedi dod o hyd i nyth â chyw gog ynddo, ac roedd yn amlwg yn awyddus i mi gael golwg arno. Er bod y nyth o leiaf hanner milltir i ffwrdd, fe aeth â mi, gan edrych yn ôl bob hyn a hyn, i'r union lecyn. A dyna lle'r oedd hi, wedi gwirioni'n lan ei bod wedi dangos y fath olygfa i'w meist. Dyma enghraifft o anifail yn ffyddlon i'w feistr.

Fe glywn ni byth a hefyd y dyddiau hyn am anffyddlondeb, a hynny ym mhob cyfeiriad - yn y teulu, yn y gymdeithas ac ym mywyd yr eglwys. Mi fyddaf yn clywed ambell arweinydd côr yn cwyno am absenoldeb yr aelodau. A phan gaf fy ngwadd i annerch ambell gymdeithas, yr un ydi'r gân. Ac wrth gwrs, does dim rhaid dweud pa mor anffyddlon ydi aelodau ein heglwysi. Mae'n amlwg ei fod yn salwch sy'n amharu ar y gymdeithas gyfan. Beth sy'n gyfrifol am hyn? Rydyn ni wedi mynd yn bobl ddi-hid. Mae'r syniad o deyrngarwch a pharch at ein gilydd wedi mynd yn elfennau prin iawn. Os nad ydi'r tîm pêl-droed yn llwyddo, does dim i'w wneud ond cefnu arno a chwilio am dîm arall. Mae'r siopau bach yn cael eu hanwybyddu, a'n teyrngarwch iddynt yn lleihau wrth i ni droi ein golygon

at yr archfarchnadoedd. Ar yr aelwydydd wedyn, mae anffyddlondeb a diffyg parch yn rhemp.

Mae neges y Beibl yn glir. Dro ar ôl tro, mae Duw'n chwilio am yr anffyddlon. Dydi o ddim am i ni grwydro ymhell oddi wrtho. Er i ni anghofio amdano a'i esgeuluso y mae'n dal i chwilio amdanom. Mae'n mynd i chwilio am yr un sydd wedi cefnu arno. Yn Efengyl Luc, cawn hanes bachgen, dau i fod yn fanwl, oedd wedi cefnu ar eu tad. Wedi treulio ysbaid yn y wlad bell, mae'r bachgen ieuengaf yn cychwyn ar ei daith adref - o dwlc y mochyn. Mae'n amlwg fod ei dad yn dal i chwilio amdano, 'A phan oedd eto ymhell i ffwrdd, gwelodd ei Dad ef' (Luc 15:20). Mae Duw'n dal i chwilio am yr anffyddlon. Yn yr un hanes, mae'r tad yn cymell y mab hynaf i wledd y dathlu, ond gwrthod y gwahoddiad wnaeth hwn. Allan yn y gadlas y gadawyd hwn. Nid ein gorfodi a wna Duw ond ceisio ein cymell. Er gwaethaf ein hanffyddlondeb, mae drws cariad Duw ar agor led y pen i'n croesawu'n ôl.

Myfyrdod pellach:

Beth sy'n gyfrifol am ein hanffyddlondeb ni?

Ydi'r Eglwys heddiw'n anffyddlon i'w Harglwydd?